# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Chwefror 2024 – Cyfrol 9 – Rhifyn 5

## Gwobr efydd i'r cigydd



Llongyfarchiadau i Elis Morris ar ennill y wobr efydd yng nghystadleuaeth Cymdeithas Coginio Cymru yng Nghasnewydd – rownd derfynol Bwtsiar Cymreig y Flwyddyn yng Nghasnewydd.

Roedd yn rhaid iddo gwneud dwy dasg i ddangos ei sgiliau i'r beirniaid. Yn gyntaf, roedd ganddo hanner awr i dorri oen cyfan yn ddarnau sylfaenol. Wedyn, roedd ganddo awr ac 20 munud i greu arddangosiad cyffrous i werthu'r cig, gan amlygu ei sgiliau a'i greadigrwydd.

Da iawn, Elis!

*(Lluniau: Cigydd Teulu Daniel Morris, Dinbych)*



# Pytiau newyddion y pentre

***Llongyfarchiadau*** calonnog i Alan a Beverley Ramsbottom ar ddathlu eu Priodas Aur

***Croeso*** i Deborah a Malcolm Nicholls sydd wedi symud i 17, Parc Tyn Llan. Maen nhw'n ddiolchgar iawn i'r preswylwyr lleol am y geiriau caredig a'r croeso twymgalon, ac maen nhw'n edrych ymlaen at fyw yn y pentre

***Cristingl*** casglwyd £121 yng ngwasanaeth Cristingl y Nadolig tuag at Shelter Cymru.

***Cydymdeimlwn*** â Martin a Melanie a'u teuluoedd o golli Willie Plumb; Gareth Roberts a'r teulu o golli ei fam Enid Roberts, Dinbych; Sian ac Adrian ar golli Tom, Bryn Golau – brawd Siân.



***Llongyfarchiadau*** calonnog i Tom Hughes, Y Ceffyl Gwyn ar gael ei ddewis i Dîm Cyntaf Pêl droed Tref y Bala. Mae Tom wedi bod yn yr Academi ers iddo fod dan 15 oed, ac mae wedi ennill ei le yn y Tîm Cyntaf ar ôl perfformiadau trawiadol gyda Thîm Datblygu'r Academi yn ddiweddar, gan ennill gwobrau 'Chwaraewr y Mis' ym mis Hydref a Thachwedd.

***Diolch***

Diolch yn fawr iawn i deulu a ffrindiau Dad am eu cyfraniadau ddiwrnod ei angladd. Casglwyd £500, swm fawr tuag at Sant Cyndeyrn, ac maen nhw'n ddiolchgar iawn am y rhodd. Fel y gŵyr pawb, fe wnaiff yr arian hwn wneud gwahaniaeth i deuluoedd mewn angen, fel ni gyda Mam y llynedd.

*Non Jones, merch Gwyn a Vera, ar ran y teulu*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | 3ydd | Grŵp crefftau, 10am–4pm |
| Sul | 4ydd | Ffair grefftau, 10am–3pm |
| Llun | 5ed | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Sadwrn | 10fed | Digwyddiad preifat – parti pen blwydd, 10.30am–1.30pm |
| Sul | 11eg | Llan Llanast 3.30–6pm |
| Llun | 12fed | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Llun | 19eg | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Sad | 24ain | Bore coffi – Beics Gwaed, 10–11.30am |
| Llun | 26ain | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |

**I hurio'r neuadd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com.**


Prompt Travel

Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week

Incorporating Vale Private Hire

01824 790485
07974 862027

Teithiau Prydlon

Tacsi a Hurio Preifat

# Project y siop gymunedol

Mae hi bellach yn 18 mis ers i ni ddechrau ar y daith i brynu swyddfa'r post a'r siop ar gyfer y gymuned. Taith sydd wedi bod gydag uchafbwyntiau cadarnhaol iawn pan wnaeth ein ceisiadau am grant ddwyn ffrwyth a'r gefnogaeth anhygoel gan bawb a brynodd y Cyfranddaliadau Siop Gymunedol. Oedd, mi roedd rhai isafbwyntiau hefyd – yr oedi cyn cael penderfyniadau tebyg i'r rhai rydyn ni wedi gorfod delio gyda nhw dros y 9 wythnos ddiwethaf. Er gwaethaf y rhain, mae rhyddhau ein cronfeydd grant terfynol sydd bellach yn paratoi'r ffordd ar gyfer cyfnewid contractau ac i ni brynu'r siop erbyn diwedd mis Ionawr.

Mae'r oedi wedi creu ei broblemau ei hun – yn gyntaf, mae'r amser yn brin bellach i roi rhybudd i bawb y bydd Swyddfa'r Post yn cau gydag ymadawiad Rob a Ros er mwyn i ni allu cychwyn ar unwaith ar y gwaith adnewyddu arfaethedig i gwrdd â dyddiad gorffen ein cyllidwyr grantiau. Gwn y bydd y cau dros dro hwn yn anghyfleustra i'r rhai sy'n defnyddio Swyddfa'r Post.

Rydym yn ddiolchgar am y rhai sydd wedi bod yn ein helpu hyd yn hyn ond bydd y camau nesaf wrth i ni adnewyddu ac yn fwyaf sicr pan fyddwn yn cyrraedd agor y drysau yn gofyn am gefnogaeth y gymuned a chynnig cymorth gan wirfoddolwyr a roddodd eu henwau ymlaen ar hyd y daith hyd yn hyn. Nawr ein bod yn gallu gweld pen y daith byddwn yn trefnu cyfarfod i chi gael cyfle i glywed sut y gallwch chi helpu.

Ein cenhadaeth erioed oedd cael canol y pentref yn llawn bwrlwm eto gyda'r Siop, Swyddfa'r Post a'r Hwb yn galon i'r gymuned.

Gobeithiwn y byddwch yn gweld gweithwyr yn cyrraedd cyn bo hir i ddechrau'r gwaith rydym wedi'i gynllunio ac os ydych yn teimlo y gallwch ein cynorthwyo yn y maes hwn, byddai croeso mawr i chi – dim ond gyrru neges ataf i.

*Emyr Morris*

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | $5^{ed}$ | Grŵp crefftau, gweu a chrosio, 10am<br>Trefoil Guild, 2pm |
| Mawrth | $6^{ed}$ | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mercher | $7^{fed}$ | Cyfarfod Pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |
| Llun | $12^{fed}$ | Grŵp crefftau, gweu a chrosio, 10am |
| Iau | $16^{eg}$ | Merfyn Parry – sesiwn hyfforddi |
| Llun | $19^{eg}$ | Grŵp crefftau, gweu a chrosio, 10am |
| Mawrth | $20^{fed}$ | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mercher | $21^{ain}$ | Tuesday Club, 2pm |
| Llun | $26^{ain}$ | Grŵp crefftau, gweu a chrosio, 10am |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

BEICIAU GWAED CYMRU

**BORE COFFI**

**Dydd Sadwrn, 24 Chwefror**
**10:00 – 11:30**
**Neuadd y Pentre, Llandyrnog**
**STONDIN GACENNAU A CHYNNYRCH A RAFFL**
**DERBYNNIR UNRHYW GYFRANIAD AT YR UCHOD GYDA DIOLCH**

**Am ragor o fanylion, cysylltwch â John Rowlands: 07879 813940**

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae'r ddau ddosbarth yn dysgu am y goedwig law y tymor hwn. Mae Dosbarth Iau wedi bod yn gwneud masgiau anifeiliaid yn ystod dysgu annibynnol. Mae'r Feithrinfa wedi bod yn dechrau dysgu am sut mae datgoedwigo yn effeithio ar yr anifeiliaid yn y goedwig law trwy chwarae byd bach.





Rydym wedi cael dau ymwelydd i'r ysgol ers y Nadolig. Daeth Jack a chyflwyno gweithdy hwyliog i'r holl blant am sut i gynnwys pobl â nam ar eu golwg.



Siaradodd Caro Collingwood, ceidwad gwiwerod Coedwig Clocaenog, â'r holl blant am sut i wybod a yw gwiwerod coch yn eu hardal a chymharu ein coedwigoedd lleol â choedwigoedd glaw Borneo.






**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**

Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446



*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Blwyddyn Naid 2024 – Manion

Rhai manion difyr am y diwrnod ychwanegol hwnnw a gawn ni bob 4 mlynedd:

**Neidiwr** Dyma enw person sy wedi ei eni ar 29 Chwefror! Os ydech chi'n neidiwr, yna rydech chi'n un o 5 miliwn o bobl wedi eu geni ar y diwrnod hwn, allan o boblogaeth 8.1 biliwn yn y byd i gyd. Dyma i chi rai pobl enwog sydd wedi eu geni ar y diwrnod – y cyfansoddwr Gioacchino Rossini, Iŵl Cesar, Leonardo da Vinci, David Copperfield, Vladimir Putin, a'r hen Lwyd o'r Bryn, sef Robert Lloyd. Ganwyd Llwyd o'r Bryn yn 1888, ac roedd ei dad ar y pryd yng Ngharchar Rhuthun am ei fod wedi achosi '*riotous behaviour*' fel un o Ferthyron y Degwm!

**Cesar a'r Pab** Cyflwynodd Iŵl Cesar y flwyddyn naid gyntaf tua 46 CC, ond dim ond un rheol oedd gan Galendr Iŵl – bod unrhyw flwyddyn oedd yn cael ei rhannu efo 4 yn flwyddyn naid. Creodd hynny ormod o flynyddoedd naid, ond chafodd y fathemateg ddim ei haddasu nes amser Pab Gregori XIll, pan gyflwynwyd y Calendr Gregori mwy na 1500 mlynedd yn ddiweddarach. Hwn sy'n cael ei ddefnyddio yn rhannau helaethaf o'r byd hyd heddiw.

**Y ferch yn gofyn i rywun ei phriodi** Yn ôl traddodiad, mae'n ocê i ferch ofyn i rywun ei phriodi ar 29 Chwefror. Mae'r arfer hwn yn mynd yn ôl ganrifoedd a dywedir bod Santes Ffraid yn Iwerddon wedi cwyno wrth St Padrig bod yn rhaid i ferched aros yn rhy hir i'w partneriaid fynd ar eu gliniau! Felly dynododd St Padrig un diwrnod – ia, un diwrnod bob 4 blynedd – i'r ferch gael gofyn i'w phartner ei phriodi! Gan nad oedd 29 Chwefror ddim yn cael ei gydnabod gan y gyfraith, doedd gan y diwrnod hwn ddim statws cyfreithiol, felly roedd hi'n iawn i'r ferch dorri'r arferiad a gofyn y cwestiwn. Yn Archifdy Fflint, mae 'na enghraifft o wraig, Caroline Hughes, Stottesdon (m. 1901) yn gofyn am law rhyw David Bowen ar ffurf cerdd, a ganfuwyd wedi ei guddio mewn llyfr ryseitiau. Dyma hi:

*As I am in want of a life situation*
*I offer this as a recommendation*
*I should make you a loving wife*
*One to keep you on through life*
*Keep your homestead free from dirt*
*Sew the buttons on your shirt*
*Cook your dinners nice and tasty*
*For no pretence grow cross or hasty*
*With care and skill I'll spend your money*
*And make your life as sweet as honey.*

Tybed weithiodd hyn?? Ddaeth neb o hyd i gofnod sy'n dangos eu bod wedi eu huno mewn glân briodas!

**Gwrthod priodi** Mae traddodiadau eraill yn dangos fod yna bris i'w dalu am ddeud 'na'! Os nad oedd y dyn yn derbyn ei chynnig hael, roedd disgwyl iddo brynu pâr o fenig (neu 12 pâr mewn rhai gwledydd) i'r ferch gafodd ei gwrthod! Mae'n bosib fod y traddodiad hwn wedi ymddangos fel bod y ferch druan yn medru gwisgo menyg i guddio'r cywilydd nad oedd hi wedi derbyn modrwy ddyweddïo!

***Anlwcus*** Mae un o bob pum cwpwl sy wedi dyweddïo yng Ngwlad Groeg yn dewis peidio priodi mewn blwyddyn naid. Pam? Am eu bod nhw'n credu ei fod yn anlwcus! Yn yr Eidal, lle maen nhw'n dweud '*anno bisesto, anno funesto*', sy'n golygu (blwyddyn naid, blwyddyn tranc)', mae 'na rybuddion yn erbyn cynllunio gweithgareddau arbennig fel priodasau. Y rheswm? '*Anno bisesto tutte le donne sono strano*' o'i gyfieithu: '*mewn blwyddyn naid, mae merched yn ddiofal*'!!

**Prifddinas Blwyddyn Naid** Mae'r ddwy ddinas – Anthony, Tecsas, ac Anthony, Mecsico Newydd wedi penderfynu galw eu hunain yn Brifddinasoedd Blwyddyn Naid y Byd. Maen nhw'n cynnal gŵyl fawr bob 4 blynedd a phartïon pen blwydd enfawr ar gyfer pob un a anwyd ar 29 Chwefror.

**Clwb Blwyddyn Naid** Mae Clwb Cymdeithas Anrhydeddus Babis Blwyddyn Naid yn glwb i bobol sy wedi eu geni ar 29 Chwefror, i hyrwyddo Chwefror 29 fel diwrnod geni dilys. Tybed ydech chi'n perthyn i'r clwb?

# Her Doddie Weir 2024

Rwy'n siŵr bod rhai ohonoch chi sy'n dilyn rygbi yn 'nabod yr enw, ac yn parchu'r dyn mawr Doddie Weir fu farw Tachwedd 2022 yn 52 oed, ar ôl dioddef o'r afiechyd ofnadwy Clefyd Niwronau Motor. Sefydlodd Rob Wainwright, cyd-chwaraewr a chapten Doddie, Sefydliad '*My Name is Doddie*', sy erbyn hyn wedi llwyddo i godi dros 4 miliwn o bunnoedd ar gyfer ymchwil hanfodol i'r clefyd hwn.

Cyn ei farwolaeth, roedd Doddie wedi codi ymwybyddiaeth o'r afiechyd Clefyd Niwronau Motor (*CNM*), ac wedi ymddangos yn ei ddillad tartan ar nifer o blatfformau cyhoeddus, yn aml wrth ochr ei ffrind mynwesol Rob Burrows – dyn caled arall y gêm, ond yn drist, sy' hefyd dioddef o'r un clefyd. Falle eich bod wedi gweld yr holl ddulliau rhyfeddol o godi arian mae Kevin Sinfield, cyfaill Rob, wedi ymgymryd â nhw ar gyfer *CNM* – rhedeg marathonau niferus, cario Rob dros y linell derfyn ac at gae rygbi.



Wedi eu hysbrydoli gan y bobl yma a dioddefwyr *CNM* eraill, mae miloedd o bobl, nifer ohonynt yn ffans mawr o rygbi, wedi cymryd rhan yn *Doddie Aid* – cystadleuaeth sialens pum wythnos rhwng rhanbarthau'r Alban a Chymru i weld pwy fydd yn gallu teithio'r nifer fwyaf o filltiroedd.

Fis Ionawr 2022, llwyddais i a grŵp o ffrindiau gerdded a beicio dros ddwy fil o filltiroedd ar draws y dyffryn, a chodi dros £500. Rydym ni'n mynd ati eleni eto, ac wedi teithio 238 milltir hyd yn hyn. Mae'n ffordd ddelfrydol i ddechrau'r flwyddyn yn Ionawr, a



chyfrannu tuag at achos teilwng – mae pob un sy'n cymryd rhan yn prynu sgarff gwddw clwm am £20 gan y Sefydliad ac yna casglu noddwyr hefyd.

Os gwelwch chi ni allan yn cerdded neu feicio, codwch eich llaw neu gofnodi eich enw a noddi ein tîm '*Penyclodiau*', a'n helpu i guro'r Albanwyr!!! I gyfrannu cysylltwch â Jane Borthwick neu Geraint Bellingham trwy '*messenger*'.

Os ydych chi am ddod yn ffit, beth am dderbyn y sialens mis Ionawr nesaf neu fynd am ddulliau codi arian eraill @#doddieaid.


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1

Dyffryn Trading Estate

Rhyl Road

Denbigh

LL16 5SJ

01745 817676

07775 717602

# Rysáit

***Rysáit Rêrbit Cymreig a Thro yn y Gynffon***

Dyma i chi bryd traddodiadol Cymreig wedi'i wneud efo'r caws aeddfed Cymreig gorau, mwstard ac ambell dro, i roi cic – cwrw! Gallwch roi bacwn neu sleisen o ham arno hefyd. Neu, beth am gael profiad mwy Cymreig a defnyddio bara lawr?

Ia, bara lawr, sydd erbyn hyn â statws Ewropeaidd *Protected Designation Origin – Dynodiad Tarddiad Gwarchodedig* – ac yn cael ei alw'n 'Cafiâr y Cymro'. Gallwch hyd yn oed ddathlu diwrnod 'Bara Lawr' ar Ebrill 14eg! Math o wymon llawn mineralau (e.e. iodin a haearn) y gallwch chi ei fwyta ydi o, ac mae'n debyg ei fod yn fwy poblogaidd yn ne orllewin Cymru achos mai dyna lle mae'n tyfu. Mae'n cael ei gynaeafu a'i olchi droeon cyn cael ei ferwi nes iddo droi'n slwts gwyrdd, debyg i lud, a dyna pryd mae'n cael ei alw'n fara lawr – er, dydi o ddim byd tebyg i fara go iawn! Mae posib ei rewi os cewch chi o'n ffres, ac mae siop yn Llandysul yn gallu anfon llond tun ohono drwy'r post i chi. Mwynhewch!



**Cynhwysion**

225g caws Cymreig aeddfed
25g menyn, wedi'i doddi
1 llwy fwrdd o saws *Worcestershire*
1 llwy fwrdd o fwstard
1 llwy fwrdd o flawd plaen
Pupur du wedi'i falu
4 llwy fwrdd o gwrw Cymreig
1 llond llwy fwrdd o fara lawr

**Dull (digon i 4)**

Gratiwch y caws a'i roi mewn sosban efo'r menyn, *saws Worcestershire*, mwstard, blawd a phupur. Cymysgwch yn dda dros wres ysgafn. Ychwanegwch y cwrw yn raddol ond peidiwch â gwneud y cymysgedd yn rhy wlyb. Trowch nes ei fod wedi toddi a phan fydd wedi troi'n bast trwchus, tynnwch o'r gwres a'i adael i oeri 'chydig.

Yn y cyfamser tostiwch y bara ar un ochr yn unig ac yna taenwch y bara lawr dros yr ochr wedi'i dostio cyn rhoi'r cymysgedd caws ar ei ben. Griliwch yn ysgafn nes ei fod wedi'i goginio drwyddo a'i frownio. Bydd y cymysgedd yn cadw'n iawn yn yr oergell am 'chydig o ddyddie.

*Ann Jones Evans*



## Cyfle i wirfoddoli

Hoffech chi wirfoddoli i helpu i ddiogelu hanes lleol eich ardal chi? Mae Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru yn chwilio am wirfoddolwyr ar hyn o bryd i ymuno â'u grŵp o wirfoddolwyr yn Rhuthun. Ar ambell ddydd Mawrth (2 sesiwn y mis), mae'r grŵp gwirfoddoli'n cyfarfod am hyd at dair awr rhwng 9.30am a 12.30pm yn yr Archifau yn Rhuthun.

Mae'r prosiect presennol yn cynnwys gweithio trwy ffeiliau'r cyngor sy'n ymdrin â llawer o agweddau ar gyfrifoldeb y Cyngor yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru.

# Hanesion Hazel

Mae 2024 yn flwyddyn naid ac fe gawn ddiwrnod ychwanegol ar 29ain Chwefror. Mae'r diwrnod ychwanegol yn cael ei ychwanegu i'r calendr bob 4 blynedd – sy'n rhoi 366 diwrnod i ni yn 2024. Mae hyn yn sicrhau bod ein calendrau'n cyd-fynd â'r tymhorau astronomegol.

Calendr solar ydi'r calendr Gregoraidd, fel y Julian, yn galendr 12 mis a phob mis rhwng 28 a 31 diwrnod yr un. Mae 365 diwrnod mewn blwyddyn, sy'n cyd-fynd ag orbit y Ddaear o gylch yr Haul (tua 365.242190 diwrnod.) Heb y diwrnod ychwanegol hwn fydden ni ddim yn cydamseru. Ffaith ddiddorol i chi – heb flwyddyn naid, byddai'n calendr ni allan 5 awr, 48 munud a 45 eiliad yn fwy bob blwyddyn. Ar ôl 100 mlynedd, byddai'r tymhorau allan ohoni o 25 diwrnod, ac ar ôl 700 mlynedd byddai ein hafau'n cychwyn ym mis Rhagfyr!

Pam mae'n cael ei galw'n 'flwyddyn naid'? Wel, mae blwyddyn arferol yn 52 wythnos ac 1 diwrnod o hyd. Hynny ydi, os ydi'ch pen blwydd chi ar Ddydd Llun un flwyddyn, y flwyddyn ganlynol, dylai fod o ar Ddydd Mawrth. Ond, mae'r diwrnod ychwanegol yn ystod blwyddyn naid yn golygu bod eich pen blwydd yn 'neidio' diwrnod. Er bod eich pen blwydd i fod i ddigwydd ar Ddydd Mawrth, bydd eich pen blwydd yn 'neidio' dros Ddydd Mawrth ac yn syrthio ar Ddydd Mercher mewn blwyddyn naid!!

Felly, sut allwn ni wneud y gorau o'r diwrnod ychwanegol hwn? Erbyn diwedd y mis, bydd pethe'n dechrau adfywio, a natur yn deffro ar ôl y gaeaf tywyll, hir.

Mae'r gwaith o 'adfer' fy hen bopty o'r ardd wyllt wedi ei orffen. Fel y gwelwch o'r lluniau 'cyn' ac 'ar ôl', mae wedi bod yn newid syfrdanol, ac wedi agor y rhan yma o'r ardd, a dod â llawer mwy o olau naturiol roedd ei angen i'r tŷ. Mae golau naturiol yr haul yn gwneud i'r tŷ deimlo'n iachach, ac mae stafell olau a llachar yn teimlo'n fwy cyfforddus rhywsut. Mae golau naturiol yn ystod y



*Cyn y gwaith (uchod) ac ar ei ôl (isod)*



# Hanesion Hazel

misoedd tywyll yn hanfodol i ni i gyd, gan ei fod yn helpu'n cyrff i gynhyrchu Fitamin D, ac mae'n gwella rhythmau beunyddiol a phatrymau cysgu.

Sylwais hefyd fod llawer iawn o fwsogl yn tyfu ar y llwybrau ar ochr yma i'r tŷ, er ei fod yn wynebu'r de. Bob blwyddyn, roedd yn rhaid i mi grafu'r llwybrau neu fe fydden nhw'n llithrig dros ben, ond rydw i'n gobeithio y bydd cael gwared â'r gordyfiant, a chael golau ychwanegol yn lleihau tyfiant y mwsogl. Yn gyffredinol, mae mwsogl yn ffynnu lle nad oes llawer o olau neu gysgodion brith. Wrth gael gwared â'r hen goeden geirios uncyff, a thorri'r Gorswigen anferth nôl, gobeithio y bydd mwy o olau'n disgleirio ar y llwybrau concrit. Roedd barf yr hen ŵr wedi dioddef yng nghysgod y Gorswigen, felly rydw i wedi ei thorri'n ôl yn is at y pridd, gan obeithio y bydd yn cynhyrchu blagur newydd.

Yr unig blanhigyn sy wedi ffynnu ydi'r Jasmin Gaeaf – planhigyn gaeafol sy'n wledd i'r llygad, ac yn cynhyrchu blodau melyn llachar yn gynnar yn y flwyddyn. Roedd wedi tyfu i fyny'r trelis, ac uwchben popeth arall, yn cynnwys y Gorswigen. Roedd angen ei glymu. Mi fydda i'n colli'r colomennod torchog oedd wedi adeiladu nyth mawr o frigau a gwlân ar dop y Gorswigen, ond fydda'i ddim yn colli eu baw ar y llwybr oddi tano! Sut fydda i'n gwneud y gorau o Chwefror 29? Gwneud coelcerth anferth!

Hazel

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

# Capel y Dyffryn

***Gymdeithas*** Nos Lun 8 Ionawr cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi bendithiol iawn

Nos Lun 22 Ionawr cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol dros ben yng nghwmni Elen Lloyd, Rhuthun. Soniodd am y 4 '*Doctor*' sy'n help i ni fyw bywyd iach: *Dr Deiet, Dr Symud, Dr Distaw a Dr Hapus.* Y llywydd oedd Gwenno a diolchwyd gan Gwenan.



*Mati, Leusa, Elen Lloyd, Gwenno, Medi a Gwenan*

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 04/02 | **5.00** | Parch. Anna Jane Evans |
| 11/02 | 9.45 | Parch. Andras Iago – Cymun |
| 18/02 | 10.00 | Oedfa'r Fro – Y Fron |
| 25/02 | 9.45 | Debbie Roberts gyda'r plant |

**Diolch o galon i bawb a gefnogodd y boreau coffi ym mis Ionawr ac a gyfrannodd mor hael atyn nhw.**

**Codwyd £637 ar gyfer Capel y Dyffryn a £560 ar gyfer**

DementiaUK

# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

Fis Ionawr, daeth dros 80 o aelodau a ffrindiau Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan ynghyd yn y Neuadd i wrando ar Fiona Gale MBE.

Roedd Fiona yn archeolegydd o fewn Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych o 1996 tan 2018, a bu'n ymwneud â phrosiectau ym Mryniau Clwyd, yn cynnwys rhai Penycloddiau a Moel Arthur.

Ers ymddeol, bu'n ymwneud â sawl prosiect, yn cynnwys prosiect Cymdeithas Ddinesig Rhuthun i adnewyddu'r hen graen rheilffordd sydd ar dir y Ganolfan Grefft, Rhuthun. Arweiniodd hyn at brosiect llawer mwy i gasglu hanes Rheilffordd Dyffryn Clwyd, Gorsaf Rhuthun ac atgofion pobl o deithio ar y rheilffordd.

I ddechrau, rhoddodd Fiona drosolwg o'r system rheilffordd yn y DU, cyn sôn am Reilffordd yr Arfordir, o Gaer i Gaergybi. Cychwynnwyd ar y gwaith adeiladu ar Fawrth 1af 1845 gan Robert, mab George Stephenson. Yn fuan, llyncwyd y cwmni rheilffordd fach yma gan y *LNWR*, a buont yn annog twristiaeth i'r trefi glan y môr er mwyn cael mwy o deithwyr ar eu trenau.

Dechreuwyd datblygu rheilffyrdd eraill yn yr ardal, rhwng Rhiwabon a Dolgellau/Abermo drwy Langollen. Adeiladwyd Rheilffordd Dyffryn Llangollen fel cangen o'r un Amwythig i Gaer i dref Llangollen. Ac wedyn fe ffurfiwyd Rheilffordd Llangollen a Chorwen er mwyn i'r lein fynd yn ei blaen drwy Ddyffryn Dyfrdwy at Gorwen, a agorwyd ar Fai 1af, 1858. Wedi Cydsyniad Brenhinol yn 1860, ffurfiwyd Rheilffordd Dinbych, Rhuthun a Chorwen, ac roedd adeiladau'r orsaf yn Ninbych yn barod erbyn mis Rhagfyr y flwyddyn honno.

Roedd y rheilffordd yn wreiddiol i fod i'r gorllewin o'r dref, drwy barc Cae Ddôl ac yn agos at y dafarn a adeiladwyd gyda golwg ar fusnes o'r rheilffordd, sef Park Place. Ond, wrth gwrs, roedd teulu'r Castell, Cornwallis West, yn gwrthwynebu a bu'n rhaid ei hadeiladu i'r dwyrain o ganol y dref.



*Fiona Gale a Julia Hughes, Cadeirydd y Gymdeithas*

Ar Fedi 4, 1860 torrodd Miss Florence West y dywarchen gyntaf ac erbyn 1862 roedd y lein o Ddinbych i Ruthun yn barod, a dwy orsaf fechan yn Llanrhaeadr a Rhewl. Gorffennwyd y darn i Wyddelwern fis Mawrth, 1863, ac erbyn yr Hydref roedd y rheilffordd wedi cyrraedd Corwen.

Roedd gan Orsaf Rhuthun ddau blatfform rhag ofn i ddau drên fod yno'r un pryd! Roedd iard nwyddau mawr yno gan fod cymaint o gynnyrch yn mynd yn ôl ac ymlaen – glo, coed, nwyddau amaethyddol.

Roedd Teras y Rheilffordd (sy'n dal yno wrth gwrs), wedi ei gynllunio gan y pensaer a'r bardd Talhaiarn (John Jones), ac yn rhedeg ochr yn ochr â'r rheilffordd yn 1864. Âi'r trên o dan y ffordd yng ngwaelod Stryd y Ffynnon, ac mae ôl cerrig y twnnel i'w weld o hyd.

Bu'r trenau'n gwasanaethu Gorsaf Rhuthun am bron i 100 mlynedd. Stopiodd gwasanaeth teithwyr rheolaidd o'r de i Gorwen yn 1953, a theithiodd y trên teithwyr ola' drwy Ruthun yn Ebrill 1962. Ymddeolodd William Glynne Hughes, y gorsaf-feistr ola, pan fu'r llinell gau.

# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan: parhad

Bu’r cau swyddogol yn 1965, ac yn fuan wedyn codwyd y rheiliau haearn.

Pan gaewyd y rheilffordd, codwyd y craen oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr iard nwyddau allan o’r ddaear, a’i adael i rydu hyd nes iddo gael ei achub pan adeiladwyd Canolfan Grefft Rhuthun yng nghanol yr Wythdegau. Cafwyd arian oddi wrth Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol er mwyn ei adnewyddu.

Hefyd, bwriedir casglu storïau ac atgofion pobl oedd yn gwybod am, neu’n rhan o Reilffordd Dyffryn Clwyd trwy gydweithio ar *The Book For You*.

Mae croeso i bawb i’r cyfarfodydd gydag aelodau yn talu £8 am raglen flynyddol - 4 cyfarfod, £3 y cyfarfod i ymwelwyr. Darperir lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesa Ddydd Mawrth 19 Mawrth am 7pm, gyda Dr Rachel Pope, Darllenydd mewn Archeoleg cynhanesyddol Ewrop, Clasuron ac Eifftoleg, Prifysgol Lerpwl, fydd yn siarad am ddyddio carbon Penycloddiau.


**DBP** Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**


Roedd yn chwith i aelodau Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan glywed bod Swyddog Cyllid y Gymdeithas, Earle Wright a’i wraig Elaine (Dirprwy Swyddog Cyllid) yn symud o Landyrnog i fyw i ardal yr Wyddgrug. Yng nghyfarfod mis Ionawr, cafodd Julia Hughes, ein Cadeirydd, y cyfle i gyflwyno cerdyn i ddiolch iddyn nhw am eu gwaith caled a’u cefnogaeth i’r Gymdeithas, a dymuno’n dda i’r dyfodol.

Byddan nhw’n parhau yn eu swyddi hyd y Cyfarfod Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn, pan benodir Swyddog Cyllid newydd.



Am ragor o fanylion neu ymholiadau am weithgareddau’r gymdeithas, i ymuno â hi neu wirfoddoli i fod yn rhan o’r prosiectau, e-bostiwch Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llandwyfan llangwyfanhistory@hotmail.com os gwelwch yn dda.



Mae clwb crefftau/gweu wedi dechrau yn yr Ystafelloedd Coco ar ddydd Llun am 10 o’r gloch y bore.

*Mae croeso i bobl ddi-grefft*! Os oes digon o ddiddordeb, bydd y cyfarfodydd yn parhau. Cysylltwch â Carolyn ar 01824790122 am ragor o wybodaeth/i fynegi diddordeb.

# Dod i adnabod … Carolyn Langford Jones



***Beth ydi'ch atgofion cynharaf?***

Roedd fy nhad yn beintiwr, papurwr a llythrennwr da, a phob amser yn falch o'r ffaith ei fod wedi cael prentisiaeth o saith mlynedd caled. Roedd fy mam yn gweithio gyda'r Deintydd ar Heol Clwyd Uchaf, Rhuthun. Mi ges i fy ngeni yn Ysbyty Rhuthun, ac roedd fy rhieni yn byw mewn rhan o dŷ'r Felin, Bontuchel. Ychydig wedyn, symudon ni i Lanrhaeadr ac mi ges i fy medyddio yn eglwys y pentre. Pan oeddwn i'n un oed, symudodd fy rhieni i Ruthun i fyw, ac yn Rhuthun oeddwn i wedyn am 35 mlynedd.

Un o'r pethe cyntaf dw i'n ei gofio oedd coroni'r diweddar Frenhines, a finne'n dair oed. Roedd gan bob stad yn Rhuthun ei 'Brenhines' ei hun - fflôt a morynion a gweision bach. Roeddwn i i fod yn forwyn fach, ond mi ddalies i'r frech goch ac mi drodd hwnnw'n niwmonia - a methu'r cwbl.

Pan oedd yr orymdaith ar fin pasio'n tŷ ni, lapiodd fy nhad fi mewn blanced fawr a mynd a fi tu allan i gael gweld golwg bach ar yr orymdaith.

***Beth am yr ysgol, addysg bellach, swydd gyntaf?***

Es i i Ysgol Borthyn i ddechrau, pasio'r 11 plus, yna i Ysgol Brynhyfryd cyn mynd i'r Coleg Technegol yn Wrecsam a dysgu llaw-fer a theipio.

Fy swydd gyntaf oedd efo'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwydydd yn Rhuthun. Dyma adeg clwy'r traed a'r genau. Mi ges i f'anfon i Westy'r Royal yn Llangollen i fod yn deipyddes i'r milfeddygon oedd yno – llawer ohonyn nhw wedi eu hanfon o wledydd eraill i astudio sut oedd y Deyrnas Unedig yn delio gyda'r clwy'. Doedd fy mam ddim yn hapus o gwbwl – roedd hi'n ferch ffarm a neb felly'n gallu dod i 'ngweld i am fisoedd. Y Clerc oedd wedi ei anfon efo fi oedd yn edrych ar fy ôl, achos dim ond 17 oed oeddwn i ar y pryd, ac yn rhy ifanc i deithio ar ben fy hun. Dydi pethe wedi newid, dudwch!!

Rhan o'r mesurau diogelwch adeg y clwy' oedd difa rhai adar a ystyrid oedd yn lledaenu'r clwy'. Mi wnaeth fy ngwarchodwraig a finne ddigon o bres i gael llond wardrob o ddillad. Sut? Wel, pluo a pharatoi ffesantod am 5 swllt y pâr yn y lle 'molchi, rhwng ateb y ffôn a gyrru 'telecsau' bob hyn a hyn i Pirbright.

Bob bore, wrth ddod i mewn i'r stafell dderbyn, oedd wedi ei throi'n swyddfa i ni, byddai llathenni o'r 'telecsau' wedi eu printio ac yn dweud i ba ardal roedd y clwy' wedi lledu dros nos. Roedd hi'n reit ddigalon ac i'w gweld yn ddiddiwedd. Unwaith neu ddwy, mi ges i fy ngyrru i Swydd Gaer, a wna i byth anghofio drewdod y sgerbydau'n llosgi yn y caeau. Yn union fel '*Dante's Inferno*'.

***Ac wedyn?***

Priodi a chael tri o blant – ond priodas a ddiweddodd mewn ysgariad.

Symudodd Gwyn a fi i Landyrnog yn 1986, ac roeddwn i'n dal i weithio yn Rhuthun. Pan ddaeth Gwyn yn anabl, gadawes i fy swydd i ofalu amdano. A dyna pryd y dechreues i setlo go iawn ac ymuno ym mywyd y pentre'. Mi

# Dod i adnabod: parhad

fues i'n gweithio yn Siop y Pentre' am sbel a dod i 'nabod pobol. Fi oedd Clerc y Cyngor Cymuned am sbel – gwaith diddorol, ond roedd fy mathemateg i'n go dila, ac roedd yr awdit bob blwyddyn yn hunlle'. Yn ddiweddarach, mi fues i'n Gynghorydd Cymuned – llai o straen o lawer ar y nerfau.

Roedd Gwyn a fi'n rhan o dîm codi arian at ail-adeiladu'r Pafiliwn yng Nghae Nant. Wrth gwrs roedd pobol y pentre' fel arfer wedi rhoi rhoddion hael, ac mi gawson ni lawer o hwyl hefyd.

Ar ddechrau'r Mileniwm, rhoddodd Ruth Griffiths a finne dasg i ni'n hunain o godi £2000 tuag at offer chwarae newydd yng Nghae Nant. Ddaru ni lwyddo i'w godi mewn chwe mis, drwy foreau coffi a rhoddion.

Dw i wedi bod yn aelod o sawl clwb a chymdeithas yn y pentre' ar hyd y blynyddoedd. Dw i'n teimlo'n lwcus iawn 'mod i wedi cael byw ar hyd fy oes yn Nyffryn Clwyd ac yn cael agor y cyrtens bob bore i weld harddwch y bryniau

***Beth sy'n eich gwneud yn flin/hapus?***

Un peth sy'n fy ngwneud i'n flin ydi'r ffaith y gall llywodraethau ddod o hyd i ddigon o arian i fynd i ryfel, ond wedyn yn dweud nad oes ganddyn nhw bres i roi i gleifion, i'r newynog, a'r digartref.

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

**Rhifau ffôn defnyddiol**
Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Tuesday Club

Dechreuodd Anwen, y trefnydd, gyfarfod mis Ionawr, gan ddymuno blwyddyn newydd dda i'r aelodau. Gorchwyl drist wedyn oedd cofio Gwynfor Jones, aelod diweddaraf y clwb, a fu farw mor annisgwyl ganol mis Rhagfyr. Anfonwyd cofion hefyd at Menna Davies, a oedd yn anhwylus.

Wedyn cafodd yr aelodau hanes sefydlu'r clwb a'i ddyddiau cynnar. Roedd Anwen wedi bod yn chwilota yng nghofnodion y clwb, sydd wedi'u cadw'n drefnus ers y dechrau'n deg. Yn 1976 y cafodd ei sefydlu, gydag anogaeth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Clwyd. Bu'n glwb gweithgar iawn yn ystod y blynyddoedd cynnar, yn codi arian at sawl achos da.

Ar ôl y sgwrs fer, cafwyd paned, tynnwyd y raffl, ac atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesa ddydd Mercher, 21 Chwefror.

# Cymanfa Ganu Sul y Blodau

**24 Mawrth am 5 o'r gloch**

**Capel y Dyffryn, Llandyrnog**
**LL16 4HL**





**Arweinydd: Trystan Lewis**

**Organydd: Rhys Roberts**

**Mynediad am ddim,**
**gwneir casgliad tuag at gronfa'r adeiladau**

**Am ragor o fanylion,**
**cysylltwch â Bryn Davies: 07585 170592**

# Neges gan ein hoffeiriad

Mae'n fraint cael rhoi fy nghyfraniad cyntaf yn 2024 i *Llais Llandyrnog*. Wrth feddwl ar y siwrne o'n blaenau, digwyddais weld ar y cyfryngau y bydd gyrwyr yn wynebu profion golwg anoddach. Mae digon o ddatblygiadau technolegol, modern ym myd sbectols i'w gael ee. Yn Tsieina, gall yr heddlu weld rhestr o ddata troseddol pobl wrth edrych arnyn nhw mewn torf!

Rydw i'n cofio bod cynhadledd fawr yn India 2014 o'r enw **Vision 2020** oedd wedi rhoi ymdrech fawr a deunydd proffesiynol, ac yn chwarae ar y teitl sy'n golygu fel arfer bod rhaid i chi weld 20 troedfedd i ffwrdd mewn prawf llygaid i yrru. Ond pan ddaeth 2020 a digwyddiadau a thrasiedïau erchyll yn datblygu oherwydd yr haint o fewn cymunedau, roedd teitl y gynhadledd yn fy nharo i fel peth eironig – nhw'n sôn am eu gweledigaeth a realiti sefyllfa go iawn pobl yn ein heglwysi.

Felly mewn bywyd, mae ein cynlluniau'n bwysig ond mae ein gallu i weld i'r dyfodol yn aml yn anodd neu'n amhosibl. Un tro gwnaeth gwraig Gristnogol ymroddedig, argymell llyfr *Kika and Me: How one extraordinary guide dog changed my world* gan Dr Amit Patel.



Roedd wedi bod yn gweithio fel meddyg trawma, pan drawyd ef gan glefyd prin ac fe gollodd ei olwg ymhen 36 awr. Cefais innau ddamwain ddrwg iawn ar droad y Mileniwm, a thra'r oeddwn i yn yr Ysbyty yn teimlo trueni drosof i fy hun, cofiais am y rhaglen deledu welais i am berson dall, a theimlo'n lwcus fy mod yn gallu gweld.

Mae nifer ohonom ni â rhyw nam ar ein llygaid. Gwellhaodd Iesu o leiaf 10 o bobl ddall a chyflawni proffwydoliaeth Eseia 35: 4-5. Pan ddown ar draws Iesu yn gwella'r deillion yn y Beibl, rydym ni'n cael ein tynnu at y trosiad o weld yn well a chliriach drwy lygaid ffydd yn Iesu Grist. Felly, beth sydd gan 2024 i'w gynnig i ni? Y gwir ydi, allwn ni ddim gwybod, ond gallwn obeithio, cynllunio a gwneud ein gorau i drawsnewid unigolion a chymunedau rydym ni'n byw ynddyn nhw. Mae'r ffaith fod y siop gymunedol yn y pentref bron â dod yn realiti yn galondid i nifer. Pan mae Iesu wrth galon cymuned, mae'r pŵer a'r cariad yn dod i wneud i'r gymuned honno lwyddo, dim ond i ni agor ein llygaid i'w wahoddiad ac adnabod ei alwad.

*Parch Martin Pritchard*
*Ardal Genhadaeth Dinbych*

# Undeb y Mamau

Ym mis Ionawr mwynhaodd yr aelodau ginio hyfryd yn y Drovers Arms, Rhewl.

Byddwn yn cychwyn ein rhaglen 2024 ym mis Chwefror, ac mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni am 2pm, ar yr ail ddydd Mercher o'r mis yn yr Ystafelloedd Coco, Llandyrnog.

## Gwasanaethau Chwefror yn eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 4ydd | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 11eg | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| | 3.30 pm | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 18fed | 11.15am | Boreol Weddi |
| 25ain | 11.15am | Cymun Bendigaid |

# Gwyliau yn y Philippines

Wedi pendroni dipyn ar le i fynd ar ein gwyliau, penderfynodd Hilary a fi ymweld â'r Philippines. Penderfyniad munud ola' oedd o, gan ein bod wedi penderfynu yn wreiddiol mynd i Fietnam, yn benodol i'r gogledd, gan nad oedden ni wedi cael cyfle i fynd yno ar ein taith yn 2019. Dal awyren o Fanceinion i Fanila, arhosiad yn Abu Dhabi, a chyrraedd y gwesty ym Manila. Er bod ganddon ni ryw syniad o leoedd i ymweld â nhw, roedd ein cynlluniau'n hyblyg, gan ein bod wedi dysgu o deithiau'r gorffennol bod cyngor cyd-deithwyr yn aml yn arwain at lefydd mwy pleserus.

Gan fod y Philippines yn cynnwys 7,641 o ynysoedd (neb yn byw ar 2000 ohonyn nhw!), roedd rhaid gwneud dewisiadau di-rif – pa rai i ymweld â nhw, sut i deithio rhyngddyn nhw, a lle oedd yn ddiogel i fynd, (gan fod yno aflonyddwch a gweithgareddau terfysgwyr yno, yn enwedig yn ardal Mindanao – lle wnaethom ni osgoi). Beth bynnag, roedd pawb wnaethon ni gyfarfod â nhw ar ein teithiau'n groesawgar a chymwynasgar dros ben.

Roedd ein taith yn cynnwys ymweld â saith ynys, pob un â'i ddull teithio amrywiol – hediadau mewnol, llongau fferi, tyc-tycs, beiciau modur a seidcars.

Ein stop cynta' oedd *Boracay*, ynys fyrlymus, traethau godidog, a glan môr hamddenol, lle arhoson ni am bum noson. Oddi yno, gyda help ein cynorthwywr teithio, *Mr Gwgl*, aethon ni i Ynys *Bohol* ar ôl aros un noson yn *Cebu*.

Ynys fechan ydi *Bohol*, a'i ffurfiannau daearegol unigryw fel y Bryniau Siocled a'r tarsier, un o'r primatiaid lleiaf yn y byd. Aros yno am ddwy noson cyn teithio ar fferi i *Siquijor*, ynys fechan arall, ac aros am bum noson yn lle dwy. Un diwrnod bythgofiadwy, huriodd Hilary a minnau feiciau modur ac ymweld â *Rhaeadrau Cambugahay*, lle cawsom ni gyfle i siglo/hongian ar raffau a snorclo.

Ymlaen â'n hanturiaethau wrth i ni deithio ar fferi (pedair awr) i *Cebu* a char i *Moalboal*. Ond wedi cyrraedd, roedd y llety lle'r oedden ni i fod i aros yn *Moalboal* yn llai na delfrydol, a rhaid oedd symud i westy arall. *Moalboal* oedd un o'r llefydd gorau i ni ymweld â nhw, ac mi roedd y snorclo gwych efo'r '*rhediad sardîns*', a chyfarfod ag ambell i grwban y môr yn fythgofiadwy. Dyma ble wnaethon ni ddathlu 'mhen blwydd yn 65 oed, efo swper arbennig a hyd yn oed roi cynnig ar far coctel 2-am-bris-1!



Yna aethon ni ar daith i *Oslob*, sydd hefyd ar ynys *Cebu*, i snorclo efo siarcod morfilaidd – profiad anhygoel lle'r oedd y creaduriaid rhyfeddol yma'n cyd-nofio efo ni yn lle cadw'r pellter! Yr unig gysur i ni oedd deall mai plancton ydi unig fwyd y siarcod yma!!! Roedd ein harhosiad yng Ngwesty Mark Venelli yn un i'w gofio. Cawsom gyfle i ymweld â *Rhaeadrau Tumalog* a mwynhau'r dref leol lle'r oedd pencampwriaethau Pêl Rwyd a ffair bleser ymlaen.

Wedyn, teithio ar fferi i *Dumaguete* ar Ynys *Negros*, lle cawson ni amser i ymlacio cyn teithio'n ôl i Fanila, aros am bedair noson yn *Abu Dhabi*, a gweld Jacob, Georgia, Spencer a George cyn hedfan yn ôl i Fanceinion ar 5 Rhagfyr.

Mae'n anodd rhoi mewn geiriau y profiadau anhygoel gawsom ni yn ystod y trip, ond ryden ni'n barod yn cynllunio ein trip mis i ffwrdd ym mis Tachwedd eleni!

*Merfyn Parry*

# Cyngor Cymuned Llandyrnog

Roedd naw aelod allan o ddeg yn bresennol yng nghyfarfod mis Rhagfyr, a dyma rai o'r materion a drafodwyd:

- Daeth Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (*SCCH*) a'i sarjiant i'r cyfarfod, ac egluro mai dim ond pedwar digwyddiad oedd wedi ei gofnodi yn y pentref ers yr adroddiad olaf ym mis Rhagfyr – tri digwyddiad domestig, ac un ddamwain ffordd.
- Codwyd pryder ynglŷn â beiciau oddi ar y ffordd, yn llythrennol yn gwyro oddi wrth y llwybrau a chreu hafog. Eglurodd y SCCH mai'r unig ffordd i riportio digwyddiad fel hwn oedd defnyddio 101, neu 'sgwrs fyw' ar lein, neu mewn argyfwng, 999. Byddai Heddlu Gogledd Cymru yn croesawu unrhyw wybodaeth, e.e. rhif cofrestr y car i fedru ymchwilio ymhellach os deuai gyfle ac adnoddau.
- Cwblhawyd yr Archwiliad ac nid oedd dim argymhellion ynddo – roedd nodyn cwblhau wedi ei arddangos ac roedd o ar lein.
- Derbyniwyd cais cynllunio i newid defnydd rhai adeiladau yn yr hen Hufenfa, lle bydd paent lliw yn cael ei gynhyrchu. Roedd yr aelodau'n cefnogi'r cais, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r amodau fydd yn anelu at leihau pryder y cymdogion agos – allyriadau, sŵn, oriau gwaith, symudiadau cerbydau mawr a chynllun goleuo wedi ei gymeradwyo.
- Daeth cadarnhad gan GSDd nad oedd ffordd mynediad o Ffordd Llangwyfan i Faes Llan yn perthyn i'r Cyngor. Felly nid yw'n ffordd fabwysiedig, ac ni fydd hi'n cael ei chynnal a'i chadw ar draul y cyhoedd, na llwybr troed 62 ar hyd yr un darn o lwybr.
- Er rhoi cais am wirfoddolwyr i ddiweddaru'r wefan drwy *Llais Llandyrnog*, ni chafwyd ymateb.
- Wrth drafod yr adroddiad ariannol, atgoffodd y Cynghorydd Parry y bydd CSDd yn wynebu diffyg ariannol o £20 miliwn 24/25 a bydd hynny'n £34 miliwn erbyn 25/26. Roedd hi'n bwysig felly bod gan y Cyngor Cymuned gynllun gwario eu cronfa wrth gefn, fel mesur rhagofal. Teimlid bod gan y Cynghorau Cymuned gronfa wrth gefn sylweddol.
- Awyr Dywyll – llygredd golau. Teimlid nad oedd un eiddo yn ardal Llangwyfan yn cydymffurfio â'r amodau cynllunio o ran cael cynllun golau sy'n gymeradwy. Bob hyn a hyn roedd gormod o olau yno, a gellid ei weld am filltiroedd. Roedd hyn y anaddas ar gyfer eiddo o fewn yr AHNE.


BLUE HAND MOWERS

**Blue Hand Mowers**

Repair and servicing of all garden machinery

Lawn mowers and lawn tractors
Chain saws
Hedge cutters
Strimmers
Disc cutters
Quad bikes
Leaf blowers
Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google
www.bluehandmowers.co.uk
enquiries@bluehandmowers.co.uk
☎0775 20 35 462


*Argraffwyd gan Mike Neuman www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*